

Cadwch y dyddiad – Magnetig 3

Bydd trydedd rownd o breswylfeydd rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol i Fluxus Magnetig yn Ffrainc a'r DU yn agor i gais ar 21 Mai tan 15 Gorffennaf 2024.

Mae'r rhaglen eisoes wedi cefnogi 8 partner rhyngwladol ac 17 artist. Nawr mae'r rhaglen yn ehangu ei rhwydwaith i 2 breswylfa arall ym Mharis a Llundain.

MAGNETIG

Mae'n rhaglen ar y cyd rhwng y DU a Ffrainc dan ymbarél Prosiectau Celf Fluxus. Mae'n dod â 10 sefydliad at ei gilydd i greu rhwydwaith o breswylfeydd i artistiaid yn rhanbarthau Ffrainc a chenedloedd y DU.

Mae pob preswylfa'n bartneriaeth rhwng rhanbarth Ffrainc a chenedl yn y DU:

- **Frac Bretagne**, Roazhon/Rennes, Llydaw i ymgeiswyr Cymru
- **Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth** i ymgeiswyr Llydaw

- **Frac Grand Large**, Dunkerque, Hauts-de-France i ymgeiswyr Gogledd Iwerddon
- **Stiwdios Celf Flax**, Belffast/Béal Feirste, Gogledd Iwerddon i ymgeiswyr Hauts-de-France

- **Villa Arson**, Nice, Provence-Alpes-Côte d'Azur i ymgeiswyr yr Alban
- **Parc Cove**, Helensburgh, yr Alban i ymgeiswyr Provence-Alpes-Côte d'Azur

- **CAPC**, Bordeaux, Nouvelle-Aquitaine i ymgeiswyr Lloegr
- **Canolfan Gelfyddydol Wysing**, Caergrawnt, Lloegr i ymgeiswyr Nouvelle-Aquitaine

- **Bétonsalon**, Paris i ymgeiswyr Lloegr
- **Gasworks**, Llundain i ymgeiswyr rhanbarth Île-de-France

Rydym yn gwahodd artistiaid Ffrainc i ymgeisio am breswylfa yn y wlad gysylltiedig yn y DU a rhai'r DU i ymgeisio am y rhanbarth cysylltiedig yn Ffrainc.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar wefan Fluxus.

Materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wrth wraidd y rhaglen. Mae'r preswylfeydd wedi'u teilwra i bob sefydliad a'i ardal leol. Bydd gwahoddiad i'r artistiaid ymateb i gyd-destunau daearyddol, hanesyddol, cymdeithasol neu artistig penodol.

Mae Magnetig 3 yn cynnig:

- preswylfa 2 fis wedi'i theilwra mewn trafodaeth â thîm curadu'r sefydliad
- ffi fisol o £2,100 neu 2500 €
- llety a lle i weithio
- mentora curadurol
- cyfleoedd rhwydweithio rhyngwladol

Rydym yn edrych ymlaen at gael eich cais

Amserlen

- 21 Mai–15 Gorffennaf: cyfnod ymgeisio
- Ail hanner Medi: pwyllgorau dewis a chyfweld â'r artistiaid a gafodd eu dewis ymlaen llaw
- Dechrau mis Hydref: cyhoeddi'r enillwyr
- Tachwedd: preswylfeydd yn dechrau

Os ydych am ymgeisio, rhaid cyflwyno cynnig artistig sy'n amlinellu arbenigedd eich ymarfer a'ch diddordebau ymchwil a pham eu bod yn berthnasol yng nghyd-destun y sefydliad yr ydych yn ymgeisio amdano. Hefyd darn byr sy'n disgrifio eich cymhelliant dros ymgeisio am breswylfa ryngwladol ar yr adeg yma yn eich gyrfa a manteision hynny.

Pwysig

- Dim ond artistiaid gweledol cyfoes sy'n gallu ymgeisio
- Nid yw myfyrwyr yn gallu ymgeisio
- Rydych yn gysylltiedig â gwlad/rhanbarth os oes gyda chi gyfeiriad preswylf yno
- Bydd ymgeiswyr Lloegr yn gallu ymgeisio i un o ddau le: CAPC, Bordeaux neu Bétonsalon, Paris
- Rhaid i bob cais fod yn Saesneg **ond bydd ymgeiswyr Cymru yn gallu ymgeisio yn y Gymraeg neu'r Saesneg**
- Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar y cyd (gan ddau neu ragor o bobl)

Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o bob cefndir. Rydym yn annog ceisiadau gan y rhai o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol – o ran hil, ethnigrwydd, rhywedd, cefndiroedd incwm isel ac ymgeiswyr sy'n F/fyddar, anabl neu niwroamrywiol. Mae gwahanol sefyllfaoedd hygyrchedd gan bob sefydliad sy'n cynnig preswylfa. Edrychwch ar ein [gwefan](#) i'w gweld.

Rydym yn barod i drafod unrhyw ofynion penodol. Os oes arnoch angen cymorth hygyrchedd ar unrhyw gam wrth ymgeisio, rhowch wybod inni.

Cyswllt:

fluxusartp@gmail.com

<https://fluxusartprojects.com/magnetic-residencies>

Y canlynol sy'n cefnogi Magnetig:

Cyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Yr Alban Greadigol

Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon

Cyngor Celfyddydau Lloegr

Y Cyngor Prydeinig

Institut français du Royaume-Uni

Institut français

Gweinyddiaeth Ffrainc dros Ddiwylliant

Gweinyddiaeth Ffrainc dros Ewrop a Materion Tramor

